**GRŴP ARBENIGOL AR ANGHENION Y GYMUNED LLUOEDD ARFOG YNG NGHYMRU**

**COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 18 MEDI 2019**

**Aelodau**

| | |
|---|---|
| Hannah Blythyn AC | Y Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol |
| Brigadydd Alan Richmond | Brigâd 160th (Cymru) |
| Comodor Awyr Adrian Williams | Yr Awyrlu Brenhinol |
| Brigadydd 'Jock' Frasier | Y Llynges Frenhinol |
| Curtis Shea | Swyddfa Darren Millar |
| Annabel Ingram | Ffederasiwn Teuluoedd y Fyddin |
| Jane Williams | Ffederasiwn Teuluoedd y Llynges |
| Ant Metcalfe | Y Lleng Brydeinig Frenhinol |
| Cyrnol Nick Beard | Cymdeithas y Lluoedd Arfog a Chadetiaid (RFCA) |
| Mike Bailey | Gwasanaeth Llesiant Cyn-filwyr |
| Rachel Morgan | CLlLC |
| Y Cynghorydd Matthew Dorrance | CLlLC |
| Neil Kitchiner | GIG Cymru i Gyn-filwyr |
| Leeanne Plechowicz | Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi yng Nghymru |
| Ian Caws | COBSEO |
| Steve Boswell | SSAFA |
| Lisa Gostling | HIVE |
| Shelly Elgin | Help for Heroes |
| Fiona Jenkins | Bwrdd Iechyd Lleol Caerdydd a'r Fro |
| Kate McCullough | Gwasanaeth Cymorth wrth Adael y Lluoedd Arfog |
| Andy Mansfield | Gwasanaeth Cymorth wrth Adael y Lluoedd Arfog |
| Cerys Gage | Llywodraeth Cymru – Diogelwch Cymunedol |
| Peter Evans | Llywodraeth Cymru – Diogelwch Cymunedol |
| Jess Lacey | Llywodraeth Cymru – Diogelwch Cymunedol |
| Phil Rhine | Llywodraeth Cymru – Tai |
| Nicola Giles | Llywodraeth Cymru – Addysg |

**Ymddiheuriadau**

| | |
|---|---|
| Dawn North | HIVE |
| Darren Millar AC | Aelod o'r Ceidwadwyr Cymreig |
| Huw Thomas | Yr Adran Gwaith a Phensiynau |
| John Shivas | Y Weinyddiaeth Amddiffyn |
| Gary Haggaty | Llywodraeth Cymru – Diogelwch Cymunedol |
| Jan Jones | Llywodraeth Cymru – Diogelwch Cymunedol |
| Reg Kilpatrick | Llywodraeth Cymru – Llywodraeth Leol |
| Jo Maddaford | Llywodraeth Cymru – Iechyd |
| Liz Davies | Llywodraeth Cymru - Iechyd |

**Arsylwyr**

| | |
|---|---|
| Kenny Warren | Llywodraeth yr Alban |

## EITEM 1 – CROESO A CHYFLWYNIADAU

1.1 Croesawodd y Dirprwy Weinidog yr aelodau i'w hail gyfarfod o Grŵp Arbenigol y Lluoedd Arfog a phwysleisiodd ei hawydd i barhau â'r gwaith da sydd wedi'i gyflawni hyd yma.

1.2 Nodwyd bod y Cynghorydd Matthew Dorrance yn mynychu ei gyfarfod cyntaf o Grŵp Arbenigol y Lluoedd Arfog. Nododd y Dirprwy Weinidog fod nifer o ymddiheuriadau wedi'u derbyn ac y byddai'r rhain yn cael eu dosbarthu gyda'r cofnodion.

## EITEM 2 – COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF AR 28 MAWRTH 2019

2.1 Dosbarthwyd cofnodion y cyfarfod blaenorol i'r holl aelodau. Gofynnodd Leeanne Plechowicz am ddiwygiad i'r cofnodion i adlewyrchu ei phresenoldeb yn y cyfarfod.

**Cam Gweithredu:**

- **Diwygio cofnodion 28 Mawrth 2019 i adlewyrchu presenoldeb Leeanne Plechowicz.**

## EITEM 3 – ADRODDIAD CYNNYDD AR GAMAU GWEITHREDU SY'N DEILLIO O'R CYFARFOD BLAENOROL

3.1 Nododd y Gweinidog fod nifer o'r camau blaenorol wedi'u cwblhau, neu ar y gweill gyda diweddariadau pellach i'w darparu yn ystod y cyfarfod.

3.2 Yn dilyn ei chyfarfod gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i drafod y ffordd o ddarparu Diwrnod y Lluoedd Arfog, dywedodd y Gweinidog y byddai un digwyddiad y flwyddyn yn y dyfodol. Byddai rhaglen dreigl 5 mlynedd ar gyfer yr Awdurdod Lleol sy'n trefnu yn cael ei datblygu mewn cydweithrediad â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Byddai £20k o gyllid yn parhau i fod ar gael gan Lywodraeth Cymru.

3.3 Diweddarwyd aelodau gan Fiona Jenkins ynglŷn â'r Rhwydwaith Trawma i Gyn-filwyr. Cynhaliwyd amrywiaeth o gyfarfodydd a chafwyd cadarnhad o gefnogaeth Pwyllgor Gwasanaethau Arbenigol Iechyd Cymru wrth gyfathrebu'r gwasanaeth newydd. Byddai Rhwydwaith Trawma i Gyn-filwyr yn cael ei drefnu gan Fwrdd Iechyd Lleol Caerdydd a'r Fro a'i lansio ar 3 Hydref yng nghynhadledd Cyfamod Llywodraeth Cymru.

**Cam Gweithredu:**

- **Rhaglen dreigl 5 mlynedd ar Ddiwrnodau'r Lluoedd Arfog y dyfodol i'w datblygu mewn cydweithrediad â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru erbyn mis Mawrth 2020.**

**EITEM 4 – DIWEDDARIAD GAN Y TRI GWASANAETH**

4.1 Soniodd y Brigadydd Frasier wrth aelodau fod HMS Dragon wedi dychwelyd i'r môr ac wrthi ar hyn o bryd yn hebrwng HMS Queen Elizabeth drwy'r broses o'i hadleoli i'r UDA a'i hyfforddiant gyda'r jetiau F35 Lightning. Cynghorodd y Brigadydd fod HMS Montrose wrthi yn cynnal busnes strategol wrth ymfyddino yn y Dwyrain Canol.

4.2 Nodwyd bod y dur cyntaf wedi'i dorri yn Glasgow ar gyfer yr HMS Cardiff newydd, yr ail gwch yn y genhedlaeth nesaf o fath 26 o ffrigadau gwrth-danfor y Llynges Frenhinol.

4.3 Fe wnaeth y Brigadydd ddatgan unwaith eto ymrwymiad y Llynges Frenhinol i godi ymwybyddiaeth o'i rôl yng Nghymru; ar 4 Hydref estynnwyd gwahoddiad i aelodau'r Grŵp Trawsbleidiol ar y Lluoedd Arfog a Chadetiaid i fynd ar fwrdd HMS Express, unig gwch y Llynges Frenhinol yng Nghymru. Yn ogystal, ar 3 Hydref byddai Cymru'n lansio'r fenter Swyddi Teuluoedd y Lluoedd Arfog yng nghynhadledd Cyfamod Llywodraeth Cymru. Nododd y byddai Prif Weinidog Cymru yn ymweld ag Ysgol Uwchradd Fitzalan i glywed am waith ei Llu Cadetiaid Cyfunol ac y byddai'r HMS Cambria newydd bellach yn weithredol ac yn agor yn swyddogol ym mis Mai 2020.

4.4 Dywedodd y Brigadydd Richmond wrth y grŵp, er ein bod yn parhau o fewn cafn demograffeg, mae'r broses recriwtio yn gwella ac mae'r gostyngiad yn lefel staffio cyffredinol y fyddin yn arafu. Ar 1 Awst daeth y frigâd yn adnabyddus fel Brigâd 160 (Cymru) a throsglwyddodd ei bataliynau i frigadau eraill, ac er bod hynny'n siomedig, roedd hyn yn gyfle i'r frigâd ganolbwyntio mwy ar ei pherthynas â'r fyddin a Chymru.

4.5 Nododd fod Gwarchodlu Dragŵn y Frenhines (Y Cafalri Cymreig) i'w hanfon i Mali fel rhan o genhadaeth cadw heddwch y Cenhedloedd Unedig yn 2020.

4.6 Wrth sôn am yr Adolygiad o Ystadau Amddiffyn, cynghorydd y Brigadydd, er bod Barics Aberhonddu i gau yn 2027, roedd opsiynau ar gyfer lleoliadau yn y dyfodol wrthi'n cael eu harchwilio gan y Weinyddiaeth Amddiffyn. Byddai Barics Cawdor yn Hwlffordd yn cau yn 2024 gyda'r uned yn symud i Loegr tra byddai Barics Beachley yn cau yn 2027. Byddai Barics Hightown yn parhau ar agor. Roedd y sefyllfa yn Sain Tathan yn parhau'n ansicr gyda thrafodaethau parhaus ynglŷn ag East Camp, lle mae dyheadau gwrthgyferbyniol ar gyfer y safle wrth y Weinyddiaeth Amddiffyn a Llywodraeth Cymru. Pwysleisiodd y Brigadydd fod y Sefydliad Seilwaith Amddiffyn yn awyddus i ddiogelu'r East Camp fel y safle ar gyfer Uned Uwch-Gapteiniaid y Fyddin.

4.7 Rhoddodd y Brigadydd ganmoliaeth i ddigwyddiad Diwrnod y Lluoedd Arfog yn y Senedd a dywedodd y Grŵp fod Brigâd 160 yn gefnogol o'r penderfyniad

diweddar i gael un diwrnod unigol ar gyfer y Lluoedd Arfog bob blwyddyn. Cynhaliwyd nifer o ddigwyddiadau ymgysylltu llwyddiannus gan gynnwys presenoldeb y fyddin yn y Sioe Frenhinol ac ymweliad gan Lt Cyffredinol Nugee, Pennaeth Amddiffyn Pobl ag Uned Carchardai Ei Mawrhydi Parc Endeavour. Mae digwyddiadau sydd ar y gweill yn cynnwys saliwt ynnau ar 14 Tachwedd yng Nghestyll Caernarfon a Chaerdydd i nodi pen-blwydd Ei Uchelder Brenhinol Tywysog Cymru a Gwobrau'r Lluoedd Arfog yng Nghymru ar 28 Tachwedd. Nodwyd y byddai Patrôl Ymarfer y Cambria yn digwydd rhwng 12 - 20 Hydref pe bai unrhyw aelodau o'r grŵp am fynd. Parhaodd y Cynllun Cydnabod Cyflogwyr i dyfu gyda 19 gwobr arian newydd a 10 gwobr aur i gyflogwyr o Gymru.

4.8 Dywedodd y Comodor Awyrlu Williams fod RAF Fali wedi cael tasg fawr newydd, sef cynnal holl hyfforddiant safonol ar gyfer Lluoedd Arfog y DU. Mae'r dasg yn symud o RAF Linton on Ouse yn Swydd Efrog, a fydd yn cau. Bydd trosglwyddo'r dasg honno i RAF Fali yn golygu cael sgwadron newydd ar gyfer yr awyrennau, y Texan, a bydd y dasg newydd yn golygu buddsoddiad newydd a swyddi sifil newydd yn yr Orsaf. Bydd symud hyfforddiant hedfan i RAF Fali hefyd yn dod â synergedd i'r hyfforddiant jetiau cyflym cyfredol sydd eisoes yn cael ei wneud gan RAF Fali. Mae hynny hefyd yn cryfhau statws hirdymor RAF Fali fel safle hedfan milwrol. Yn ystod yr wythnosau diwethaf, mae ITV hefyd wedi darlledu cyfres fer "Fighter Pilot" lle mae hyfforddiant jetiau cyflym yn RAF Fali wedi bod yn rhan allweddol o'r gyfres, gan danlinellu'n effeithiol iawn y tasgau hanfodol y mae'r Orsaf yn eu cynnal ar gyfer gallu gweithredol Lluoedd Arfog y DU yn ogystal â'i statws fel canolfan ragoriaeth fyd-eang ar gyfer hyfforddiant hedfan milwrol.

4.9 Drwy gydol yr haf, parhaodd yr Awyrlu Brenhinol gyda'i amserlen brysur o ddigwyddiadau ledled Cymru. Roedd hyn yn cynnwys Sioeau Awyr Abertawe a'r Rhyl yn ogystal â digwyddiad i enwi awyren yr Awyrlu Brenhinol yn RAF Fali ar ôl Grwp-Gapten Rees, VC, a aned yng Nghaernarfon. Derbyniodd Groes Victoria diolch i'w ddewrder yn yr awyr yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf. Roedd Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi ymweld yn ddiweddar â Chanolfan Gwytnwch yr Awyrlu Brenhinol yng Nghrughywel fel rhan o'r cynllun AMAF. Soniodd y Comodor Awyr wrth aelodau fod ffilm wedi'i chynhyrchu fel rhan o brosiect 'Talacre Ddoe a Heddiw', gyda chyllid y Loteri Genedlaethol a Chronfa Ymddiriedolaeth Cyfamod y Lluoedd Arfog, i godi ymwybyddiaeth o rôl yr Awyrlu Brenhinol yn Nhalacre a'r fro yn ystod yr Ail Ryfel Byd.

4.10 Nodwyd penodiad Pennaeth Awyr newydd yr Awyrlu Brenhinol, y Marsial Awyr Mike Wigston. Gan ddechrau ym mis Gorffennaf 2019, dywedodd y Comodor Awyr wrth aelodau fod y Prif Farsial Awyr wedi'i fagu yn ardal Bangor ac aeth i Ysgol Friars yn y ddinas.

**EITEM 5 – STRATEGAETH CYN-FILWYR Y DU**

5.1 Cyflwynodd Kate McCullough yr eitem ar ran y Weinyddiaeth Amddiffyn. Eglurodd Kate fod y gwaith o ddatblygu'r Strategaeth Cyn-filwyr yn parhau ac

ar amser. Rhannwyd data ar draws y Llywodraeth a chlystyrau Cobseo. Byddai cynllun gweithredu ac ymateb swyddogol y Llywodraeth yn cael eu cyhoeddi ddiwedd 2019. Roedd Gweinyddiaeth Materion Cyn-filwyr dal o dan drafodaeth. Byddai'r tîm wrth eu gwaith cyn diwedd mis Medi gyda chyngor ynglŷn â'i gwmpas a'i siâp i'w gyflwyno i'r Prif Weinidog erbyn diwedd Medi 2019. Dywedwyd hefyd bod gwaith ar y gweill i nodi opsiynau yn ymwneud â deddfwriaeth y Cyfamod ac y byddai'r rhain yn cael eu cyflwyno i Johnny Mercer, y Gweinidog dros Bersonél Milwrol a Chyn-filwyr Milwrol maes o law.

**EITEM 6 – GWASANAETHAU CYMORTH WRTH ADAEL Y LLUOEDD ARFOG**

6.1 Cyflwynodd Kate y diweddariad am y Gwasanaethau Cymorth wrth Adael y Lluoedd Arfog (DTS) a chyflwynodd Andy Mansfield, rheolwr rhanbarthol y DTS yn Ne Cymru. Esboniodd Kate mai polisi sylfaenol DTS oedd JSP100, a fyddai, yng nghamau olaf ei ddatblygiad, yn cael ei lansio erbyn diwedd Ionawr 2020. Wedi'i leoli o fewn Veterans UK, rôl y DTS fyddai paratoi'r rheini sy'n gadael y lluoedd, tra'n cydnabod hefyd anghenion teuluoedd. Byddai ei strwythur yn cynnwys rheolwyr a gweithwyr achos rhanbarthol. Pwysleisiwyd pwysigrwydd cydlynu lleol a rhanbarthol yn enwedig o gofio ehangder y rhanbarthau y byddai personél milwrol yn dewis ymgartrefu ynddyn nhw. Nodwyd bod trafodaethau eisoes ar y gweill i ehangu'r tîm os oedd angen, i ddarparu adnoddau parhaol yng Nghymru, a bod achosion busnes sy'n gofyn am adnoddau ychwanegol eisoes wedi'u paratoi. Eglurodd Kate y byddai proses atgyfeirio newydd gyda'r atgyfeiriad yn dod yn rhan o Veterans UK a'i ddirprwyo drwy'r DTS lle bo'n briodol. Er y bydd HARDFACTS yn parhau, byddai'n cael ei ddefnyddio fel offeryn diagnosteg ar gyfer atgyfeiriadau sy'n gofyn am ddehongliad mwy hyblyg, fel y defnyddiwyd yn y gorffennol. Nodwyd y byddai'r DTS yn parhau i gynnal digwyddiadau ymgynghori rhanbarthol, gan ymgysylltu'n bennaf â darparwyr o'r trydydd sector a'r sector statudol.

6.2 Wrth groesawu'r fenter, gofynnodd Jane Williams am sicrwydd y byddai'r adborth a dderbynnir yn cael ei ddefnyddio. Gan nodi cymhlethdodau pontio, cadarnhaodd Kate y byddai'r DTS yn gweithio mewn cydweithrediad â'i holl bartneriaid i sicrhau bod hynny'n digwydd. Pwysleisiodd Fiona Jenkins bwysigrwydd sicrhau bod gwybodaeth ar gael mewn ffordd hygyrch i sicrhau bod gan weithwyr achos ffordd o nodi unigolion sydd angen y gwasanaeth. Nododd y Brigadydd Frasier fod un o'r materion yn ymwneud â pheidio â chael canolfan ailsefydlu yng Nghymru. Cadarnhaodd Cerys Gage y byddai hyn yn cael ei godi mewn cyfarfod gyda'r Partneriaeth Pontio Gyrfaoedd nes ymlaen y diwrnod hwnnw. Mynegodd Leeanne Plechowicz ddiddordeb mewn cysylltu â'r DTS o safbwynt Cyfiawnder Troseddol.

**Cam Gweithredu:**

- **Swyddogion Llywodraeth Cymru i godi diffyg canolfan ailsefydlu yng Nghymru gyda'r Bartneriaeth Pontio Gyrfaoedd.**

**EITEM AGENDA 7 – YMARFER CWMPASU AR Y CYNLLUN CYFLENWI**

7.1 Soniodd Peter Evans am yr ymgysylltu sylweddol a ddigwyddodd fel rhan o'r ymarfer Cwmpasu yn ystod Medi 2018 - Mawrth 2019 ac yn ystod cyfres o gyfarfodydd dilynol rhwng Gorffennaf - Awst 2019. Nodwyd bod y cynllun cyflenwi yn cynnwys argymhellion a gofynion posibl, y mae llawer ohonynt yn gofyn am gefnogaeth aelodau'r Grŵp Arbenigol, fforymau rhanbarthol a swyddogion cyswllt y Lluoedd Arfog. Gofynnwyd i'r aelodau hefyd ystyried unrhyw faterion sydd heb eu cynnwys yn y cynllun cyflenwi ond y dylid eu cynnwys.

7.2 Er mwyn cwblhau'r cynllun cyflenwi, pwysleisiodd Peter fod angen gwaith i gael person arweiniol ar gyfer pob cam gweithredu. Roedd angen eglurder ar yr amserlenni ar gyfer y camau gweithredu hefyd er y nodwyd y byddai llawer o'r rhain yn ddibynnol ar Strategaeth Cyn-filwyr y DU.

7.3 Awgrymodd Mike Bailey y gellid cynnwys Veterans UK fel arweinydd y camau gweithredu amrywiol. Bydd swyddogion yn cwrdd â Mike Bailey i drafod ymhellach. Croesawodd Fiona Jenkins yr adroddiad a dywedodd fod GIG Cymru i Gyn-filwyr (VNHSW) eisoes yn profi heriau oherwydd cynnydd yn y galw am y gwasanaeth. Awgrymodd Fiona y dylid diwygio’r argymhelliad y dylai’r VNHSW ymgysylltu â charcharorion cyn eu rhyddhau, sy’n adlewyrchu'r angen am gynnydd yn capasiti VNHSW. Byddai swyddogion y Lluoedd Arfog yn codi’r mater hwn gyda chydweithwyr o fewn y maes iechyd yn Llywodraeth Cymru.

7.4 Fe wnaeth Ant ganmol gwaith yr AFLOs a phwysleisiodd pa mor bwysig y dylid parhau â'u rôl; barn a adleisiwyd gan y Comodor Awyr. Nodwyd, er gwaethaf amrywiadau rhanbarthol, bod gan bob Hyrwyddwr Awdurdod Lleol ddisgrifiad swydd enghreifftiol yn eu cylch gwaith i gefnogi cymuned y Lluoedd Arfog ac y dylid eu cynnwys yn fwy nag y maent ar hyn o bryd. Cytunwyd y byddai'r cynllun cyflenwi yn cael ei gyflwyno i Hyrwyddwyr yr Awdurdodau Lleol a'i ystyried yng nghyfarfod nesaf Rhwydwaith Lluoedd Arfog CLlLC ym mis Tachwedd.

**Camau Gweithredu:**

- **Swyddogion i gwrdd â Veterans UK i drafod y cynllun cyflenwi ymhellach.**
- **Swyddogion i ddiwygio’r cynllun cyflenwi i adlewyrchu’r angen am gynnydd yng nghapasiti VNHSW.**
- **Capasiti VNHSW i’w drafod rhwng swyddogion y Lluoedd Arfog a swyddogion polisi iechyd.**
- **Y cynllun cyflenwi diwygiedig i'w gyflwyno i'w drafod yng nghyfarfod nesaf o Rwydwaith Lluoedd Arfog CLlLC ym mis Tachwedd.**

**EITEM AGENDA 8 – PARATOADAU DIWRNOD VE**

8.1 Cyflwynodd Ant Metcalfe yr eitem ar baratoadau sydd yn eu lle i nodi 75 mlynedd ers Diwrnod VE. Er nad oedd gwybodaeth wedi'i derbyn eto gan yr Adran dros Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, cadarnhaodd Ant y byddai dydd Gwener 8fed Mai yn cynnwys parêd i gofio a myfyrio. Byddai dydd Sadwrn 9fed Mai ar gyfer digwyddiadau dathlu fel partïon stryd a chyfle am ddiolchgarwch a gwasanaeth yn Eglwys Gadeiriol Llandaf ar ddydd Sul 10fed Mai. Sefydlwyd gweithgor i benderfynu ar y ffordd o gyflwyno digwyddiadau ledled Cymru. Roedd yr aelodau'n cynnwys Llywodraeth Cymru, y Lleng Brydeinig Frenhinol, y Tri Gwasanaeth, Cyngor Dinas Caerdydd a CLlLC. Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 25 Medi.

8.2 Er mwyn nodi Diwrnod VJ, dywedodd Ant y byddai'r Lleng Brydeinig Frenhinol yn cynnal gwasanaeth ar 15 Awst yn yr Arboretum Coffa Cenedlaethol yn Swydd Stafford.

8.3 Pwysleisiodd y Brigadydd Richmond bwysigrwydd rhoi cynlluniau ar waith fel mater o flaenoriaeth i sicrhau bod adnoddau'n cael eu dyrannu'n briodol.

**EITEM AGENDA 9 – UNRHYW FATER ARALL**

9.1 Diolchodd y Gweinidog i aelodau am eu mewnbwn a chadarnhaodd ddyddiad y cyfarfod nesaf – 23 Mawrth yn Nhŷ Hywel.

9.2 Nodwyd bod cyflwyniadau wedi'u rhoi yn y Grŵp Trawsbleidiol diweddar ar y Lluoedd Arfog ynglŷn â'r ymchwil a gynhaliwyd gan Project 360 a menter Swyddi Teuluoedd y Lluoedd Arfog.

9.3 Dywedodd y Gweinidog fod trafodaethau yn parhau gydag AD ynglŷn â chyflwyno Cynllun Gwarantu Cyfweliad i gyn-filwyr yn Llywodraeth Cymru.

9.4 Dywedodd Phil Rhine fod angen gwaith pellach i nodi niferoedd y cyn-filwyr digartref ac argymhellodd y dull a fabwysiadwyd gan Loegr gyda'r cynllun Tai yn Gyntaf. Dywedodd Phil wrth aelodau hefyd fod gwaith ar y gweill i ddatblygu Cod Canllawiau Tai ac y byddai'n ymgynghori â phartneriaid allweddol a chydweithwyr DTS wrth symud ymlaen â'r gwaith.